MILLER
Research Evaluation Consulting

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion i'r canllawiau ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

## Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad ar ganllawiau ychwanegol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

Fersiwn Derfynol, Mehefin 2021

# Dadansoddiad o Ymatebion i’r Ymgynghoriad ar Ganllawiau Ychwanegol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru: Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Nick Miller, Geof Andrews, Carwyn Greaves, Dominic Oliver / Miller Research (UK) Ltd.
Nia Brayer / Old Bell 3

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â
nick@miller-research.co.uk

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK
www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

## Tabl cynnwys


1. Cyflwyniad/Cefndir ... 1
2. Canllawiau Ychwanegol i'r Cwricwlwm ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol: Cwestiynau 2-11 Arolwg yr Ymgynghoriad ... 2
   - Cwestiwn 2 ... 2
   - Cwestiwn 3 ... 3
   - Cwestiwn 4 ... 6
   - Cwestiwn 5 ... 8
   - Cwestiwn 6 ... 8
   - Cwestiwn 7 ... 10
   - Cwestiwn 8 ... 10
   - Cwestiwn 9 ... 13
   - Cwestiwn 10 ... 14
   - Cwestiwn 11 ... 15
3. Gweithdai'r Ymgynghoriad ... 20
   - Cwestiwn 1 ... 20
   - Cwestiwn 2 ... 22
   - Cwestiwn 3 ... 25
   - Cwestiwn 4 ... 26
   - Cwestiwn 5 ... 27
   - Cwestiwn 6 ... 29
   - Cwestiwn 7 ... 30
   - Cwestiwn 8 ... 32

## Geirfa

| Talfyriad / Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| AHY | Addysg Heblaw yn yr Ysgol |
| CAHMS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed *(Child and Adolescent Mental Health Services)* |
| EOTAS | Addysg Heblaw yn yr Ysgol *(Education Other Than at School)* |
| SEBD | Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol *(Social Emotional Behavioural Difficulties)* |
| SEMH | Iechyd Cymdeithasol, Emosiynol a Meddyliol *(Social Emotional Mental Health)* |
| UNCRC | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn |
| WLGA | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Cyhoeddwyd Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020. Cyn ei gyhoeddi, bu’r fframwaith yn destun ymgynghoriad eang a helaeth. Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i ymarferwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill gyfrannu adborth i helpu datblygu’r canllawiau. Roedd yr adborth hwn yn dangos pa ganllawiau penodol, ychwanegol, y byddai ar ysgolion a sefydliadau addysgol eraill eu hangen er mwyn cynllunio a gwireddu eu cwricwlwm yn llwyddiannus.

1.2 Comisiynwyd Miller Research, ar y cyd ag Old Bell 3, i gyflawni dadansoddiad annibynnol o’r ymgynghoriad, a oedd yn cynnwys ymgyngoriadau gweithdy gyda rhanddeiliaid, a trosglwyddo’r ymatebion ysgrifenedig i’r canllawiau ychwanegol.

1.3 Mae’r elfen hon o ddadansoddiad yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y canllawiau ychwanegol drafft ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) (EOTAS) yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae canllawiau’r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer ysgolion, sefydliadau ac ymarferwyr eraill sy’n ymwneud â llunio cwricwlwm sy’n cynnwys addysg heblaw yn yr ysgol.

## 2. Canllawiau Ychwanegol i'r Cwricwlwm ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol: Cwestiynau 2-11 Arolwg yr Ymgynghoriad

2.1 Derbyniodd arolwg yr ymgynghoriad gyfanswm o ddeuddeg o ymatebion llawn, gyda phob ymateb wedi'i gyflwyno yn y Saesneg. Yn eu plith, cyflwynwyd ymatebion ysgrifenedig ar ran Estyn a Chomisiynydd Plant Cymru.

2.2 Roedd gan holl ymatebwyr yr arolwg rôl alwedigaethol o fewn y sector addysg. O'r rheini a oedd yn gweithio mewn addysg, roedd pedwar ymatebydd yn athrawon, gan gynnwys tri phennaeth. Roedd ymatebion galwedigaethau addysgol eraill yn cynnwys un llywodraethwr ysgol, un cynorthwyydd dysgu, dau swyddog gwella ysgolion, un rheolwr gwasanaeth ieuenctid, un pennaeth gwasanaeth, ac un arolygydd.

**Cwestiwn 2**

*A oes perthynas glir rhwng y canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft hyn ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol a chanllawiau cyhoeddedig y Cwricwlwm i Gymru?*

2.3 O'r ymatebion, roedd deg yn cytuno bod perthynas glir rhwng canllawiau drafft y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol a chanllawiau cyhoeddedig y Cwricwlwm i Gymru. Roedd dau o'r ymatebwyr yn ansicr.

2.4 Roedd rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at y modd mae'r canllawiau drafft ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol yn cyfeirio at y pedwar diben. Y farn oedd bod hyn yn cydnabod yr angen i ddarparwyr AHY gael yr un weledigaeth ag ysgolion prif ffrwd, er y nodwyd bod cefnogaeth angenrheidiol yn angenrheidiol ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol.

2.5 Er y bwriedir i'r canllawiau drafft gael eu darllen law yn llaw â chanllawiau llawnach y Cwricwlwm i Gymru, teimlai dau o'r

cyfranogwyr y gellir gwneud mwy o fewn y canllawiau AHY i ddehongli'r gyfres lawn o ddogfennaeth y cwricwlwm fel mae'n berthnasol i sefydliadau addysg heblaw yn yr ysgol.

2.6 Wrth archwilio'r ymatebion 'ansicr', fe wnaeth un cyfranogwr y sylw nad yw'r canllawiau drafft, er eu bod yn canolbwyntio ar ddyletswyddau gorfodol addysg heblaw yn yr ysgol, yn eu gosod yng nghyd-destun y canllawiau ehangach sydd ar gael i awdurdodau lleol wrth lunio cwricwlwm AHY. Teimlai'r cyfranogwr fod hyn yn creu perygl y gallai'r canllawiau annog yr 'isafswm posibl' o ran dull o ddatblygu cwricwlwm AHY, yn hytrach na dull sy'n tybio y bydd y dysgwr yn dilyn y cwricwlwm llawn ond eto'n cynnal yr hyblygrwydd i leihau ei ehangder i ddyletswyddau gorfodol pan fo hynny er budd gorau'r dysgwr. Mae'r cyfeiriad cyfyngedig yn y canllawiau yn golygu y gellir llunio'r cwricwlwm AHY heb ddim ystyriaeth o'r elfennau canlynol a sefydlwyd yn y canllawiau ehangach:

- Y cwestiynau allweddol i'w hystyried wrth lunio cwricwlwm.
- Addysg hawliau dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Amrywiaeth
- Gyrfaoedd a phrofiad cysylltiedig â gwaith
- Profiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

2.7 Teimlai cyfranogwr arall fod ar y canllawiau angen mwy o gyfeiriad at rôl y gwasanaeth ieuenctid a gwasanaethau ieuenctid eraill atodol wrth ddarparu cyfran fawr o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

### Cwestiwn 3

*A yw'r canllawiau hyn yn mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu unedau cyfeirio disgyblion, a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol eraill, wrth drefnu, cynllunio a darparu cwricwlwm ac asesu ar gyfer dysgwyr?*

2.8 Roedd y cwestiwn nesaf yn holi a oedd y canllawiau'n ymdrin â'r materion sy'n wynebu darparwyr wrth drefnu a chynllunio'r cwricwlwm. O'r ymatebion hyn, dim ond un ymatebydd oedd yn awgrymu nad oeddent yn gwneud hyn, gyda saith yn ateb ydynt, a phedwar heb fod yn siŵr.

2.9 Roedd ymatebwyr yn pwysleisio bod y canllawiau'n nodi materion sy'n ymwneud â chynllunio ond roeddent o'r farn fod rhai bylchau yn y canllawiau gan gynnwys:

- Roedd pryder nad oes dim cyfeiriad yn y canllawiau ar hyn o bryd at leoliadau hollt nac at adnabod y corff cyfrifol. Roedd ymatebwyr yn pwysleisio eu bod yn ansicr pwy fyddai'r corff cyfrifol ar gyfer lleoliadau hollt a bod ar y canllawiau angen eglurder pellach ynghylch y pwnc hwn.
- Roedd ymatebwyr yn codi pryderon y byddai anawsterau sy'n ymwneud ag adnoddau yn effeithio ar gynllunio a gweithio mewn partneriaeth gyda'r consortia. Roeddent o'r farn fod angen am ddarpariaeth wahanol ac wedi'i phersonoli i ddiwallu anghenion dysgwyr, ond bod nifer o heriau wrth sicrhau cyfranogiad effeithiol plant a phobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau ynghylch eu cwricwlwm, ac wrth adolygu darpariaeth eu cwricwlwm. Roeddent yn awgrymu ei bod yn anodd ar hyn o bryd i gael amser staff i drafod cynllun cwricwlwm a bod yn rhaid i'r canllawiau gydnabod yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei uchelgeisiau.
- Ansicrwydd ynghylch mapio darpariaeth i gyfateb â phrosesau asesu newydd, yn enwedig ynghylch a yw TGAU yn aros neu beidio, a allai greu problemau o fewn y canllawiau. Roedd pryderon hefyd ynghylch sut mae cwricwla addysg heblaw yn yr ysgol yn galluogi pobl ifanc i ennill cymwysterau. Roedd ymatebwyr yn awgrymu bod cyd-destun ehangach o dystiolaeth yn dangos nad yw darpariaeth AHY bob amser yn peri bod ehangder o gyfleoedd cwricwlwm na chymwysterau ar

gael i bobl ifanc. Gall hyn olygu dysgwyr yn ailadrodd cwricwlwm penodol o weithgarwch heb unrhyw gamu ymlaen.

- Ansicr beth mae’r cyfeiriad at ‘secure curriculum’ yn ei olygu.
- Teimlai ymatebwyr fod y canllawiau, ar hyn o bryd yn rhoi manylion annigonol ar drefniadau monitro ac adrodd.
- Roeddent yn awgrymu bod angen am ganllawiau CA4 ar gyfer dysgwyr addysg heblaw yn yr ysgol, gyda’r canllawiau presennol yn cael eu darparu tan Flwyddyn 9 yn unig. Fel maent wedi eu ffurfio ar hyn o bryd, teimlent fod y canllawiau yn methu â chydnabod y gwahaniaethau mewn dulliau sy’n digwydd ar hyn o bryd, yn enwedig Cyfnod Allweddol 4.

2.10 Roedd ymatebwyr yn cynnig rhai awgrymiadau am adrannau newydd i wella’r canllawiau ar gyfer cynllunio, llunio a chyflwyno’r cwricwlwm ac asesu i ddysgwyr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Sut mae egwyddorion y cwricwlwm newydd a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn gyson â’i gilydd, a sut fydd hyn yn effeithio ar arferion ynghylch llunio a chyflwyno’r cwricwlwm mewn lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol.
- Rhannu gwybodaeth ynghylch dewisiadau cwricwla a chymwysterau addysg heblaw yn yr ysgol gyda dysgwyr a’u teuluoedd.
- Sicrhau bod y dysgwr yn cymryd rhan mewn penderfynu ac adolygu eu cwricwlwm.
- Sicrhau disgwyliadau a dyheadau uchel o fewn y cwricwlwm addysg heblaw yn yr ysgol.
- Y ddyletswydd i sicrhau dilyniant a sut y dylid cyflawni hyn (gan gyfeirio at y canllawiau dilyniant sy’n mynd law yn llaw â’r cwricwlwm ehangach).
- Yr angen i sicrhau darpariaeth Gymraeg o ansawdd uchel.

**Cwestiwn 4**

*A yw'r canllawiau hyn yn cefnogi ac yn helpu'r broses o drefnu, cynllunio a darparu cwricwlwm ac asesu ar gyfer dysgwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau eraill sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol?*

2.11 Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dangos consensws cymharol gyda saith o'r cyfranogwyr yn ateb 'ydynt', un yn ateb 'nac ydynt', a phedwar 'ddim yn siŵr'.

2.12 Teimlai ymatebwyr fod y canllawiau'n rhoi hyblygrwydd i lunio cwricwlwm sy'n troi o amgylch y disgybl gydag asesu a dilynant unigol. Fodd bynnag, gall y newid hwn olygu heriau hefyd o safbwynt addasu i ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol. Gallai hyn ffurfio rhan o gwricwlwm darparwr-cymysg ehangach gyda mwy o hyblygrwydd.

2.13 Roedd ymatebwyr yn amlygu'r angen am esboniad mwy cyson o rôl consortia addysg rhanbarthol. Byddai darparu dolenni i'r Cwricwlwm i Gymru: Cynllun Gweithredu Chwefror 2020 yn fuddiol. Ar hyn o bryd, teimlai ymatebwyr fod rolau a chyfrifoldebau consortia yn aneglur ac yn anghyson ar draws rhanbarthau. Mae angen am fwy o fanylder ar gynlluniau i gyflawni'r cysondeb hwn. Roedd un ymatebydd yn galw am enghreifftiau o fewn y canllawiau gan gonsortia rhanbarthol neu awdurdodau lleol ar gynigion i gyflwyno rhaglenni dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr i gefnogi llunio a chyflwyno'r cwricwlwm mewn unedau cyfeirio disgyblion a sefydliadau eraill addysg heblaw yn yr ysgol.

2.14 Roedd un ymatebydd yn amau gorfodi dim ond un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu. Er y cydnabuwyd bod hyn yn rhoi hyblygrwydd i ddysgwyr mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, mae angen am fesurau diogelu yn y canllawiau i sicrhau bod penderfyniad yr awdurdod lleol, pwyllgor rheoli neu'r athro sy'n gyfrifol am yr uned cyfeirio disgyblion yn cael ei arwain gan hawliau'r plentyn a gyda chydweithrediad y plentyn.

2.15 Nid oes proses ar hyn o bryd ynghylch sut y penderfynir hepgor rhai neu'r cyfan o elfennau ehangach y cwricwlwm. Roedd yr ymatebydd yn croesawu cynnwys mwy o gydweithrediad systematig gyda dysgwyr yn y penderfyniadau hyn y cyfeirir atynt yn y canllawiau. Nodwyd y cwestiynau canlynol gan yr ymatebydd fel enghreifftiau o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth benderfynu cynnig neu ddatblygu cwricwlwm i unigolyn nad yw'n cynnwys elfennau eraill y cwricwlwm:

- Beth yw elfennau ehangach y cwricwlwm mae plentyn/person ifanc yn eu mwynhau ac arno eisiau parhau â nhw?
- Beth yw elfennau ehangach y cwricwlwm sy'n bwysig i'w dysgu ym marn y plentyn/person ifanc?
- Beth yw dyheadau'r plentyn/person ifanc yn y dyfodol a pha ddysg neu gymwysterau y bydd arno eu hangen i gyflawni'r rhain?
- Pa feysydd o'r cwricwlwm fydd yn galluogi camu ymlaen o ddysgu blaenorol?
- Pa faes o'r cwricwlwm fydd yn galluogi dysgu neu brofiadau newydd mewn rhannau ehangach o'r cwricwlwm nad yw'r plentyn/person ifanc wedi cael cyfleoedd amdanynt o'r blaen?
- Pa feysydd o'r cwricwlwm fydd yn hanfodol er mwyn galluogi ailintegreiddio i sefydliad prif ffrwd?
- Sut fydd y plentyn/person ifanc yn cael ei helpu i ddeall sut y gallai eu cwricwlwm addysg heblaw yn yr ysgol gefnogi ailintegreiddio i sefydliad prif ffrwd?
- Sut fydd y plentyn/person ifanc yn cael ei helpu i ddeall sut y bydd eu cwricwlwm addysg heblaw yn yr ysgol yn eu cefnogi wrth ennill cymwysterau?

2.16 Mae'r mathau hyn o gwestiynau yn angenrheidiol er mwyn sichrau bod hepgor elfennau ehangach y cwricwlwm yn dal i fod er budd gorau'r plentyn. Heb wybodaeth benodol ar y broses hon yn y canllawiau, mae pryder mai cwricwlwm sy'n cynnig yr elfennau gorfodol yn unigol fydd yn dod y model arferol i ddysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol.

2.17 Fe wnaeth un cyfranogwr sylw ar yr angen am fwy o eglurder ar fonitro ansawdd y ddarpariaeth a phwy sy'n gyfrifol am fonitro.

**Cwestiwn 5**

*Pa agweddau ar y canllawiau hyn sy'n arbennig o ddefnyddiol yn eich barn chi?*

2.18 Roedd ymatebwyr i'r arolwg yn glir fod i'r canllawiau agweddau a fyddai'n gwella profiad dysgu yn ddirfawr i fyfyrwyr addysg heblaw yn yr ysgol. Yn gyntaf, roeddent yn awgrymu bod adeiladu cysylltiadau rhwng y darparwr ac ysgol flaenorol y dysgwr yn faes cadarnhaol o'r canllawiau, gyda phwyntiau pontio yn allweddol er mwyn sicrhau parhad a dilyniant yn neilliannau dysgwyr.

2.19 Roedd ymatebwyr hefyd yn croesawu bod y canllawiau'n cydnabod bod angen dull newydd ar ddysgwyr mewn uned cyfeirio disgyblion, gyda phwyslais ar les sy'n troi o gwmpas y disgybl. Mae'r cydbwysedd cryfach hwn rhwng pwyslais ar y maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles a'r holl set o feysydd dysgu a phrofiad yn cynnig dull hyblyg a oedd yn cael ei weld fel elfen arbennig o ddefnyddiol o'r canllawiau.

2.20 Yn olaf, roedd nifer o ymatebwyr yn awgrymu bod llwybrau dilyniant clir yn gam ymlaen gyda chanllawiau addysg heblaw yn yr ysgol yn gwneud y broses o newid cwricwlwm yn llawer cliriach o ran cynllun cyffredinol a'r cyfrifoldebau dros ei gyflwyno.

**Cwestiwn 6**

*A oes unrhyw agweddau ar y canllawiau hyn y gellid eu gwella yn eich barn chi?*

2.21 Yn gyffredinol teimlai saith o'r deg o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn fod agweddau o'r canllawiau y gellid eu gwella.

2.22 Roedd amryw o'r ymatebwyr hyn yn codi cwestiynau ynghylch cynnwys unedau cyfeirio disgyblion o fewn addysg heblaw yn yr ysgol. Teimlai ymatebwyr fod y canllawiau'n methu â chydnabod amrediad yr angen a'r math o ddarpariaeth sydd o fewn addysg heblaw yn yr ysgol. Dylid amlinellu'r amrediad o ddarpariaeth addysg AHY yn y cyflwyniad.

2.23 Gwnaed y sylw y dylid, wrth ddiffinio addysg heblaw yn yr ysgol, rhoi mwy o bwyslais ar natur tymor byr AHY lle bo'n bosibl. Fodd bynnag, teimlai ymatebwyr ar yr un pryd y byddai'n ddefnyddiol cydnabod amgylchiadau lle gallai lleoliad mwy hirdymor fod yn addas.

2.24 Roedd Estyn yn awgrymu y dylid diwygio geiriad 'Beth yw addysg heblaw yn yr ysgol' i ddarllen "Mae addysg heblaw yn yr ysgol wedi ei gynllunio ar gyfer lleoliadau tymor byr i helpu dysgwyr i ddychwelyd at addysg brif ffrwd a/neu eu galluogi i gamu ymlaen tuag at addysg bellach, hyfforddiant neu fyd gwaith".

2.25 Fe wnaeth un cyfranogwr y sylw y byddai canllawiau a fyddai'n ymwneud ag astudiaethau achos, neu enghreifftiau o 'addysg addas a phwrpasol' y tu allan i unedau cyfeirio disgyblion, hefyd o fudd.

2.26 Dywedodd un ymatebydd hefyd y dylid cynnwys canllawiau penodol yn ymwneud ag astudiaethau achos, ac enghreifftiau o "addysg addas a phwrpasol" a gyflwynir gan ddarparwyr AHY i ddysgwyr, yn enwedig y rheini ac anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion â datganiad.

2.27 Mae angen am wybodaeth bellach ar gyfer agwedd darparwyr hyfforddiant addysg heblaw yn yr ysgol gan fod pwyslais llawer o'r canllawiau'n ymddangos fel pe bai'n fwy ar unedau cyfeirio disgyblion.

2.28 Codwyd yr angen am fwy o eglurder ynghylch disgwyliadau rôl darparwyr fel pryder gan un ymatebydd.

2.29 Yn olaf, fel yr amlinellwyd yn yr ymatebion i gwestiwn 4, teimlai cyfranogwyr y dylid diwygio'r canllawiau i gynnwys canllawiau ar gyfer penderfynu pa elfennau o'r cwricwlwm y dylid eu cynnwys wrth gynllunio cwricwlwm ac ar gyfer sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhan weithredol o'u proses benderfynu.

**Cwestiwn 7**

*A oes unrhyw wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y canllawiau hyn yn eich barn chi?*

2.30 Pan holwyd a oedd y canllawiau wedi hepgor unrhyw wybodaeth, rhoddodd ymatebwyr nifer o awgrymiadau am ganllawiau pellach y gellid eu darparu.

2.31 Yn gyntaf, roedd ymatebwyr o'r farn y dylai Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith gael yr un pwyslais ag a roddir ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Roeddent o'r farn fod hyn yn fwlch o fewn y canllawiau ar hyn o bryd.

2.32 Teimlent hefyd fod canllawiau i gefnogi mwy o gysondeb mewn trefniadau comisiynu gwahanol awdurdodau lleol yn allweddol ar gyfer gweithredu'r canllawiau'n llwyddiannus. Cydnabyddir yr agwedd hon yn Adolygiad Llywodraeth Cymru o Drefniadau Comisiynu Awdurdodau Lleol ar gyfer Darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (2020) i sicrhau bod pob dysgwr yn gyfartal o ran hawl i'r cwricwlwm, gydag ymatebwyr o'r farn y dylid cynnwys hyn o fewn y canllawiau.

2.33 Dywedodd ymatebwyr hefyd mai elfennau eraill sydd ar goll o'r canllawiau ar hyn o bryd yw:

- Canllawiau ychwanegol ar ailintegreiddio fel nad yw dysgwyr yn cael eu 'dal' mewn darpariaeth o'r fath.
- Cydnawsedd â chymwysterau CA4 a sut y caffaelir y rhain.
- Canllawiau ychwanegol ar sicrhau ansawdd cynnig y cwricwlwm.
- Gwybodaeth bellach ar rolau a chyfrifoldebau'r cwricwlwm mewn leoliadau hollt.

**Cwestiwn 8**

*A oes gennych unrhyw bwyntiau pellach i'w gwneud am y canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft hyn ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol yn benodol?*

2.34 Fe wnaeth cyfranogwyr godi nifer o bwyntiau pellach am y canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol. Roedd rhai o'r pwyntiau hyn wedi cael sylw mewn ymateb i gwestiynau blaenorol.

2.35 Teimlai un ymatebydd fod angen trafodaeth a chanllawiau pellach ynghylch dysgwyr â datganiad sydd angen darpariaeth hirdymor addysg heblaw yn yr ysgol yn unol â dull a arweinir gan drawma sy'n awgrymu y gallai, yn aml, ailgyflwyno'r dysgwr i addysg brif ffrwd yng ngoleuni ymyrraeth tymor byr beidio â bod er budd gorau pobl ifanc fregus sydd ag anghenion Iechyd Cymdeithasol, Emosiynol a Meddyliol (SEMH) cymhleth. Mae'r sylw hwn yn unol â thema sy'n ymddangos yn gyson yn yr ymatebion i'r cwestiwn o sicrhau y rhoddir sylw i'r amrediad llawn o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ac y caiff ei gydnabod yn y canllawiau.

2.36 Awgrymwyd bod dolenni i gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru megis y Canllawiau Gwella Ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd yn cael eu cynnwys o fewn y canllawiau.

2.37 Roedd un cyfranogwr yn galw am fwy o gydweithio gydag ysgolion a chlystyrau lleol er mwyn lleihau ynysrwydd unedau cyfeirio disgyblion.

2.38 Mae sylw arall a dderbyniwyd yn gofyn sut fydd dysgwyr addysg heblaw yn yr ysgol sydd ar amserlen gyfyngedig yn gallu cael at y cwricwlwm cyfan.

2.39 Roedd amryw o ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen am fwy o uchelgais wrth bennu disgwyliadau ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol.

2.40 Galwyd hefyd am fwy o eglurder ar sut mae'r canllawiau'n cydweddu â chefnogaeth anghenion dysgu ychwanegol i bobl ifanc hyd at 25 oed.

2.41 Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru y byddai cyfres o adnoddau a chanllawiau ar gyfer sefydliadau addysg heblaw yn yr ysgol ynghylch y cwricwlwm newydd yn fuddiol cyn i’r cwricwlwm newydd ddod yn orfodol ym mis Medi 2022. Awgrymwyd yr adnoddau canlynol fel rhai a allai fod yn fuddiol:

- Sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio mewn sefydliadau addysg heblaw yn yr ysgol fel y gellir ystyried cynllunio’r cwricwlwm yn bwrpasol ar gyfer dysgwyr AHY.
- Casglu ynghyd amrywiaeth barhaus o astudiaethau achos o arferion gyda’r cwricwlwm newydd mewn amrywiaeth o sefydliadau AHY. Dylai’r sefydliadau hyn gynnwys unedau cyfeirio disgyblion ond dylent hefyd gynrychioli amrywiaeth helaethach o sefydliadau, gan gynnwys lleoliadau deuol, lleoliadau addysg bellach, darparwyr seiliedig ar waith, tiwtora unigol, darpariaeth wirfoddol, a darpariaeth a gefnogir gan y sector ieuenctid.
- Casglu ynghyd a rhannu rhai enghreifftiau o sut y gall penderfynu ac adolygu meini prawf addysg heblaw yn yr ysgol gynnwys cyfranogiad gan bobl ifanc.
- Darparu adnoddau penodol i weithwyr proffesiynol a’r rheini mewn rolau llywodraethu i helpu cefnogi penderfyniadau a chraffu ar benderfyniadau ynghylch hepgor elfennau o’r cwricwlwm.
- Darparu enghreifftiau o rannu gwybodaeth yn effeithiol gyda theuluoedd a phobl ifanc ynghylch darpariaeth cwricwlwm ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol.
- Ymchwilio i’r dulliau gorau o ymdrin â’r cwricwlwm o ran cefnogi ailintegreiddio plant a phobl ifanc o addysg heblaw yn yr ysgol i ddarpariaeth brif ffrwd a rhannu canfyddiadau allweddol ar draws y sector.
- Amrywiaeth o adnoddau a ddatblygir yn benodol sy’n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc i helpu deall sut mae

gwahanol sefydliadau addysg heblaw yn yr ysgol yn ymdrin â datblygu'r cwricwlwm. Gall adnoddau o'r fath helpu dysgwyr AHY i ddeall sut y gellir eu cynnwys mewn penderfyniadau a beth i'w ddisgwyl oddi wrth ddarpariaeth AHY. Awgrymwyd y gellir datblygu'r adnoddau hyn gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad mewn darpariaeth cwricwlwm mewn sefydliadau AHY er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch ac yn ymdrin â blaenoriaethau allweddol pobl ifanc.

**Cwestiwn 9**

*Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau Cwricwlwm Cymru ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar: i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?*

2.42 Roedd ymatebwyr i'r arolwg yn codi nifer o ystyriaethau ynghylch yr effeithiau y gallai'r canllawiau ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol eu cael ar y Gymraeg. Awgrymai ymatebwyr fod nifer o bryderon ynghylch y ddarpariaeth bresennol i ddysgwyr AHY a oedd yn siaradwyr Cymraeg, yn bennaf diffyg adnoddau Cymraeg mewn rhai sefydliadau. Caiff anawsterau wrth benodi staff sy'n siarad Cymraeg i unedau cyfeirio disgyblion ei weld fel anhawster hanesyddol. Dywedodd un ymatebydd ei bod yn anodd ennyn diddordeb rhai dysgwyr AHY mewn gwersi Cymraeg.

2.43 Roedd ymatebwyr yn awgrymu nad oedd, ac eithrio cyfeiriad at yr elfen orfodol o ddarpariaeth Gymraeg, fawr o ganllawiau pellach. Roeddent yn awgrymu y bydd diffyg capasiti dwyieithog a chyfleoedd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd yn golygu'r angen am newid diwylliant nas adlewyrchir o fewn y canllawiau presennol.

**Cwestiwn 10**

*Sut gellid gwella’r canllawiau?*

*Eglurwch sut gellid ffurfio neu newid y canllawiau Cwricwlwm i Gymru arfaethedig ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol: i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.*

2.44 Dywedodd amryw o gyfranogwyr fod angen mwy o feddwl a hyblygrwydd er mwyn cael gwared ar rwystrau i’r Gymraeg o fewn darpariaeth dysgu heblaw yn yr ysgol. Awgrymwyd cynyddu cyrsiau Cymraeg hygyrch i athrawon fel ateb posibl. Y farn oedd y byddai adeiladu ar gynnydd mewn dysgu cyfunol a gweithgareddau rhithwir hefyd yn addawol.

2.45 Dywedodd un cyfranogwr fod darpariaeth iaith yn aml yn flaenoriaeth is pan fo dysgwyr, sy’n aml mewn argyfwng, yn cychwyn ar ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

2.46 Teimlai ymatebydd arall y dylai’r canllawiau ymhelaethu ar sut y gall sefydliadau addysg heblaw yn yr ysgol sicrhau cyfle a chynnydd ieithyddol i ddysgwyr yn y Gymraeg a’r Saesneg.

2.47 Yn olaf, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru fod angen gwaith ar frys ar mwyn symud ymlaen â datblygu system ddwyieithog o addysg heblaw yn yr ysgol o fis Medi 2020. Er yn datgan bod angen sicrhau darpariaeth ddwyieithog o’r cwricwlwm, cyfyngedig yw’r wybodaeth ar sut y caiff hyn ei wneud a sut y dylid sicrhau datblygu’r iaith Gymraeg mewn darpariaeth iaith Saesneg, yn enwedig yn wyneb y diffyg capasiti presennol o fewn darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol.

**Cwestiwn 11**

*Sylwadau eraill*

2.48 Roedd cwestiwn olaf yr arolwg yn rhoi cyfle i ymatebwyr ychwanegu unrhyw sylwadau pellach yn dilyn y deg cwestiwn cyntaf. Roedd hefyd ymatebion ychwanegol a ddarparwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru, ESTYN, a Cynrychiolwyr Gweithluoedd.

2.49 Roedd un ymatebydd o'r farn fod angen gosod mwy o bwyslais ar atal, gyda'r canllawiau yn canolbwyntio ar weithio tuag at leihau'r nifer o waharddiadau o ysgolion a lleihau'r angen am unedau cyfeirio disgyblion.

2.50 Roedd ymatebydd arall yn nodi y dylai darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol fod yn ddigon mawr i ddarparu mynediad i ddysgwyr ar fyr rybudd. Roeddent yn awgrymu hefyd mai data o ansawdd gwael ac anghyson a ddarperir gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

2.51 Yn olaf, roedd dau ymatebydd yn awgrymu fod angen mwy o bwyslais o fewn y canllawiau ar y gwelliannau lles a iechyd meddwl o fewn unedau cyfeirio disgyblion a bod angen sicrhau bod dysgwyr AHY yn cael mynediad i Hwb.

**Ymatebion ychwanegol – Comisiynydd Plant Cymru**

2.52 Roedd ymateb y Comisiynydd yn esbonio mewn manylder nifer o bryderon ynghylch cwmpas y canllawiau a'u gallu i ddiwallu'n ddigonol ofynion pobl ifanc mewn sefydliadau addysg heblaw yn yr ysgol. Gellir crynhoi'r prif bryderon fel a ganlyn:

- Nid yw'n pennu mesurau diogelu digonol i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc mewn sefydliad AHY yn derbyn y ddarpariaeth addas mae ganddynt hawl iddi
- O ran penderfyniadau gan weithwyr proffesiynol, dylai'r canllawiau sicrhau proses lle caiff y cwricwlwm ehangaf posibl ei gynllunio ar gyfer AHY

- Nid yw'n sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau

2.53 Mae ymateb y Comisiynydd yn gweld y berthynas rhwng y canllawiau drafft a chanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru fel un sydd *'wedi ei chyfyngu'n fawr'.* Mae'r ymateb yn amlygu perygl y gallai'r canllawiau hyrwyddo agwedd 'isafswm posibl' at gwricwlwm addysg heblaw yn yr ysgol, yn hytrach na dull lle caiff y canllawiau eu drafftio ar y dybiaeth y bydd dysgwyr yn dilyn y cwricwlwm yn llawn, ond sydd hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i gyfyngu ei ehangder i ddyletswyddau gorfodol pan fo hynny er budd gorau'r person ifanc.

2.54 Mae'r ymateb hefyd yn nodi pwysigrwydd rhoi mwy o fanylder ar sut y caiff cynnig y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr addysg heblaw yn yr ysgol ei adolygu a sut mae'r dysgwr ei hun yn cymryd rhan yn yr adolygiad hwn. Y teimlad yw ei bod yn hanfodol fod y person ifanc yn cael ei wahodd i rannu ei farn ar y cwricwlwm mae'n ei ddilyn, a helpu ffurfio datblygiad parhaus eu cwricwlwm.

2.55 Cafodd y meysydd canlynol eu hawgrymu fel themâu ar gyfer adrannau ychwanegol i'w hystyried o fewn y canllawiau:

- Canllawiau penodol ar gyfer penderfynu hepgor neu beidio rhai neu'r cwbl o elfennau ehangach y cwricwlwm fel mai dim ond gofynion gorfodol addysg heblaw yn yr ysgol sydd ar waith.
- Y ddyletswydd i sicrhau dilyniant a sut y dylid cyflawni hyn (gan gyfeirio at y canllawiau dilyniant sy'n mynd law yn llaw â'r cwricwlwm ehangach).
- Sut mae egwyddorion y cwricwlwm newydd yn gyson â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a sut fydd hyn yn adlewyrchu arferion ynghylch llunio a chyflwyno'r cwricwlwm mewn sefydliadau addysg heblaw yn yr ysgol.
- Rhannu gwybodaeth am ddewisiadau cwricwla a chymwysterau AHY gyda dysgwyr a theuluoedd.

- Sicrhau disgwyliadau a dyheadau uchel o fewn cwricwlwm addysg heblaw yn yr ysgol.
- Yr angen i sicrhau darpariaeth Gymraeg o ansawdd uchel (mae rhywfaint o gyfeirio at hyn yn y ddogfen ond yn wyneb yr heriau adnabyddus wrth sicrhau hyn, mae angen canllawiau pellach).
- Ystyried gwahanu'r canllawiau rhwng unedau cyfeirio disgyblion a mathau eraill o ddarpariaeth AHY.

2.56 Yn ogystal, mae'r ymateb yn cydnabod y bwriad i ddatblygu'r canllawiau yn y ddogfen ymgynghori trwy ystyried astudiaethau achos, a gaiff ei weld fel cam i'w groesawu. Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses, mae'r Comisiynydd wedi cynnig astudiaethau achos dienw o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol i helpu darlunio materion allweddol a helpu gyda datblygu cwricwla lleol. Mae'r Comisiynydd yn cynnig ei gymorth wrth ddrafftio adran o'r canllawiau i esbonio sut y dylai cynllunio cwricwlwm mewn darpariaeth AHY alluogi hawliau dynol plant a bod yn gyson â hwy.

**Ymatebion ychwanegol – ESTYN**

2.57 Yn gyffredinol, mae'r canllawiau drafft yn cyflwyno egwyddorion defnyddiol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm i ddisgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion a sefydliadau eraill addysg heblaw yn yr ysgol. Roedd ymateb ESTYN hefyd yn adrodd perthynas glir rhwng canllawiau addysg heblaw yn yr ysgol a chanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru, gydag amcanion cyffredinol canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu mynegi yn y canllawiau drafft i arweinwyr gwahanol sefydliadau AHY allu cyfeirio atynt.

2.58 Roedd ymateb ESTYN yn adrodd ar yr anawsterau sy'n wynebu arweinwyr unedau cyfeirio disgyblion a sefydliadau eraill addysg heblaw yn yr ysgol o safbwynt trefnu, cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm ei hun. Er enghraifft, mae'r ymateb yn cyfeirio at yr angen am

hyblygrwydd wrth gefnogi'r bobl ifanc fwyaf bregus, a'u helpu nhw i oresgyn rhwystrau rhag cymryd rhan.

2.59 Roedd cyfraniad ESTYN yn awgrymu'r pwyntiau canlynol ar gyfer cryfhau'r canllawiau:

- Mwy o fanylder ar gynllunio'r cwricwlwm ac asesu.
- Cryfhau'r iaith ar gydweithio systematig.
- Amlygu pwysigrwydd cydweithio prydlon a chyson gydag amrywiaeth o wasanaethau partner i gefnogi anghenion dysgwyr yn llawn.
- Eglurder ynghylch pwy sydd angen cynnal adolygiadau o'r cwricwlwm, pa mor aml, ac o dan ba amgylchiadau.
- Canolbwyntio pellach ar ennyn diddordeb dysgwyr i gymryd rhan yn y cwricwlwm.

2.60 O safbwynt ychwanegiadau at y canllawiau, mae ymateb ESTYN yn argymell y canlynol:

- Darparu enghreifftiau gan gonsortia rhanbarthol neu awdurdodau lleol o gynigion i gyflwyno rhaglen ddysgu broffesiynol i ymarferwyr neu becynnau pwrpasol o gymorth ar gyfer llunio a chyflwyno'r cwricwlwm ar draws unedau cyfeirio disgyblion a sefydliadau eraill addysg heblaw yn yr ysgol.
- Canllawiau i gefnogi mwy o gysondeb mewn trefniadau comisiynu ar draws awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gyfartal o ran hawl i'r cwricwlwm.
- Canllawiau ychwanegol ar sut i sicrhau ansawdd cynnig y cwricwlwm.
- Mwy o wybodaeth ar rolau a chyfrifoldeb cwricwlwm ar gyfer y cynnig cwricwlwm lle mae gan ddysgwyr leoliadau hollt.

### Ymatebion Ychwanegol – Cynrychiolwyr Gweithluoedd

2.61 Roedd cynrychiolwyr gweithwyr yn awgrymu bod hyblygrwydd yn allweddol er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n diwallu anghenion

dysgwyr. Mae'r hyblygrwydd hwn yn ofynnol o safbwynt caniatáu llwybrau galwedigaethol 14-19 ond hefyd ar gyfer hepgor y cwricwlwm.

2.62 Roedd gan gynrychiolwyr gweithwyr rywfaint o bryderon ynghylch sicrhau y darperir buddsoddiad digonol i'r darparwr AHY gefnogi mynediad ehangach i'r cwricwlwm a hefyd fod gan staff yr adnoddau angenrheidiol i gefnogi'r holl weithlu ac osgoi llwyth gwaith gormodol. Roeddent yn awgrymu hefyd fod amseriad y canllawiau'n wael yn sgil y problemau sydd angen eu datrys ar ôl COVID-19.

2.63 Byddai wedi bod yn well gan gynrychiolwyr gweithluoedd hefyd gael chwarae mwy o ran mewn datblygu'r cwricwlwm, cefnogi cydweithio a chydweithredu o fewn y system, a mwy o bwerau i awdurdodau lleol gefnogi newid.

## 3. Gweithdai’r Ymgynghoriad

3.1 Mae’r bennod hon yn nodi canfyddiadau’r pum gweithdy a gynhaliwyd rhwng 2 ac 11 Mawrth 2021. Daeth 24 o gyfranwyr o 22 o wahanol sefydliadau i’r gweithdai a hwyluswyd gan Miller Research ac OB3 Research.

3.2 O’r 24 gyfranwyr, roedd:

- tri o ysgolion arbennig
- dau o ysgol brif ffrwd
- chwech o uned cyfeirio disgyblion
- wyth yn cynrychioli awdurdodau lleol, naill ai fel arweinwyr cynhwysiant (pedwar), gwasanaethau ieuenctid (dau), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (un) neu aelod etholedig (un)
- pump yn ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol (gan gynnwys dau gyfrannwr o sefydliad addysg bellach).

**Cwestiwn 1**

*A oes perthynas glir rhwng y canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft hyn ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol a chanllawiau cyhoeddedig Cwricwlwm i Gymru?*

3.3 Yn gyffredinol, credai cyfranwyr fod **perthynas glir** rhwng canllawiau cyhoeddedig Cwricwlwm i Gymru a’r canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol. Roedd cyfranwyr yn **croesawu’r canllawiau penodol ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol.** Roeddent yn cael eu gweld yn gyffredinol fel yr hyn roeddent yn ei ddisgwyl i’r graddau nad oedd yn ‘cynnwys dim byd dadleuol’ na ‘dim byd sy’n peri sioc imi ynddo’. Roedd darparwyr yn gymharol hyderus y byddent yn gallu teilwra eu darpariaeth i gyflawni gofynion y cwricwlwm newydd.

3.4 Roedd cyfranwyr yn pwysleisio pwysigrwydd darllen canllawiau addysg heblaw yn yr ysgol ar y cyd â chanllawiau’r Cwricwlwm i Gymru, gan y gallai eu darllen ar eu pen eu hunain arwain at

gamddehongli. Dim ond un cyfrannwr gweithdy nad oedd yn credu bod y canllawiau AHY yn ychwanegu unrhyw werth at ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru.

3.5 Y farn oedd bod y canllawiau addysg heblaw yn yr ysgol yn **ategu pedwar diben a sgiliau allweddol y Cwricwlwm i Gymru**. Roedd cyfranwyr yn croesawu'r ffaith eu bod yn cyfeirio at y cwricwlwm llawn gan mai'r farn oedd bod hyn yn uno holl elfennau'r system addysg, a thrwy hynny'n dod ag addysg heblaw yn yr ysgol yn nes at addysg prif ffrwd a allai helpu ailintegreiddio disgyblion. Roedd darparwyr AHY yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y canllawiau, er eu bod cyfeirio at y cwricwlwm llawn, yn glir yn eu neges y bydd yn ofynnol i ddarparwyr AHY ddarparu'r hyn fydd yn '**rhesymol bosibl**'. Roedd hyn yn rhoi sicrwydd i ddarparwyr na fydd disgwyl iddynt gyflwyno'r cwricwlwm llawn i bob disgybl, ond yn hytrach ei deilwra i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr unigol. Mae hyn yn gydnaws â'r rheswm pam y caiff disgyblion eu cyfeirio at ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn y lle cyntaf, ac awgrymwyd bod lleiafrif sylweddol o ddysgwyr yn cael eu cyfeirio at AHY oherwydd eu datgyweddiad mewn addysg brif ffrwd.

3.6 Roedd cyfranwyr o'r farn hefyd fod **cysondeb yn y modd y diffinir addysg heblaw yn yr ysgol**, gan mai'r diffiniad cyfreithiol o AHY, sef darpariaeth, a drefnir ac a gyllidir gan yr awdurdod lleol, a gaiff ei fabwysiadu yn y ddwy set o ganllawiau. Fodd bynnag, roedd hyn yn peri problem i rai cyfranwyr gan y caiff y diffiniad deddfwriaethol ei ystyried yn rhy gul ac y caiff ei ddiffinio'n anghyson ar lawr gwlad. Nodwyd nad yw'r canllawiau felly'n ymwneud â darpariaeth sydd wedi cael ei drefnu'n uniongyrchol gan ysgol, er bod y disgybl hwnnw'n derbyn yr un ddarpariaeth â'r hyn a gaiff ei ddosbarthu fel AHY pan gaiff ei drefnu gan yr awdurdod lleol. Roedd rhai cyfranwyr yn dymuno gweld y canllawiau'n berthnasol ar gyfer y ddau fath o amgylchiadau tra bod eraill yn dymuno gweld mwy o eglurder ynghylch a yw'n berthnasol i'r ddau fath o amgylchiadau neu beidio.

**Cwestiwn 2**

*I ba raddau mae'r canllawiau hyn yn mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu unedau cyfeirio disgyblion, a darparwyr mathau eraill o addysg heblaw yn yr ysgol, wrth drefnu, cynllunio a darparu'r cwricwlwm ac asesu ar gyfer dysgwyr?*

3.7 Cafodd y pedair egwyddor graidd a nodir o fewn canllawiau addysg heblaw yn yr ysgol eu croesawu'n frwd gan gyfranwyr y gweithdai. Y farn oedd eu bod yn adlewyrchu diben darpariaeth AHY ac anghenion ac amgylchiadau disgyblion sy'n ei derbyn. Roedd unedau cyfeirio disgyblion yn enwedig yn nodi bod y canllawiau'n gyson â'u diben yn y modd eu bod "yn gydnaws â'r hyn rydym yn ceisio'i gyflawni'.

3.8 Mae'r materion roedd y canllawiau'n ymdrin yn dda â hwy ym marn rhanddeiliaid yn cynnwys:

- **Eu bod yn cydnabod yn ddigonol fod disgyblion addysg heblaw yn yr ysgol yn 'wynebu rhwystrau sylweddol i ddysgu'.** Roedd cyfranwyr yn croesawu'r pwyslais ar y mater hwn gan fod addysg heblaw yn yr ysgol wedi cael ei drefnu i fynd i'r afael â'r materion hyn ac yn canolbwyntio ar anghenion cymdeithasol a lles disgyblion. Roedd cyfranwyr o'r farn fod y canllawiau'n adlewyrchu diben addysg heblaw yn yr ysgol yn y lle cyntaf fel maes 'Iechyd a Lles' dysgu a phrofiad a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru. Heb fynd i'r afael â'r materion hyn, ni fydd dysgwyr yn gallu ymwneud â'r pum maes dysgu a phrofiad arall a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru.
- **Eu bod yn adlewyrchu diben ac amcanion darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol o ran ymdrin ag anghenion dysgwyr unigol**. Roedd cyfranwyr yn croesawu'r ffaith fod canllawiau addysg heblaw yn yr ysgol ar gael gan eu bod yn cydnabod bod gan AHY ddiben penodol a'i fod yn cefnogi carfan penodol o ddisgyblion mewn modd cyfannol ac unigol. Roedd cyfranwyr hefyd yn croesawu'r ffaith fod y canllawiau'n cydnabod y dylid trefnu bod y cwricwlwm ar gael mewn ffordd

sy'n 'addas ar gyfer y dysgwr unigol'. Roeddent o'r farn fod y canllawiau'n cynnig hyblygrwydd iddynt gyflwyno elfennau o'r cwricwlwm a fyddai'n berthnasol i bob dysgwr, gan gydnabod bod disgyblion AHY yn aml â'r canfyddiad fod eu haddysg wedi bod yn amherthnasol i'w diddordebau. Roedd canfyddiad fod y canllawiau'n caniatáu i ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol gyflwyno dysg a fydd o ddiddordeb i ddysgwyr (e.e. adeiladu) yn ogystal â chaniatáu iddynt 'ollwng' pynciau nad ydynt o ddim diddordeb i ddysgwyr (e.e. Cymraeg, gwyddoniaeth).

3.9 Roedd y prif amheuon roedd gan gyfranwyr ynglyn â'r canllawiau addysg heblaw yn yr ysgol yn ymwneud â'r canlynol:

- **Ailintegreiddio**: mae llawer o ddisgyblion addysg heblaw yn yr ysgol, yn enwedig ar draws Cyfnod Allweddol pedwar, nad ydynt mewn gwirionedd yn cael eu hannog o ddifrif i ddychwelyd at addysg brif ffrwd gan nad yw darparwyr o'r farn fod hyn er budd gorau'r disgybl. Mae'r datganiad o fewn y canllawiau sy'n darllen 'Caiff addysg heblaw yn yr ysgol ei gynllunio … i gefnogi dysgwyr i ddychwelyd at addysg brif ffrwd' felly yn peri problem i lawer o ddarparwyr, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a'r rheini sy'n ymwneud â chyflwyno 'cyrsiau' a drefnir fel prentisiaethau iau. Roedd y cyfranwyr o'r farn fod y canllawiau'n methu â chydnabod beth sy'n digwydd mewn gwironedd ar draws addysg heblaw yn yr ysgol. Er gwaethaf hyn, credai cyfranwyr fod y canllawiau'n adlewyrchu sefyllfa disgyblion yn gywir hyd at Gyfnod Allweddol 3, a gaiff eu helpu i ddychwelyd at addysg brif ffrwd.
- **Lleoliadau tymor byr**: roedd cyfranwyr yn amau'r cyfeiriad at addysg heblaw yn yr ysgol fel 'lleoliadau tymor byr' gan fod hyn yn allgáu carfan mawr o ddisgyblion AHY a oedd yn cael ei disgrifio fel rhai 'gydol oes' sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol am gyfnod hirach o amser. Credai rhai cyfranwyr y dylid cael gwared yn gyfan gwbl ar y term 'tymor byr' o'r canllawiau,

credai eraill y dylai gael ei ddiffinio'n well, tra awgrymai eraill y gellid ei ddisodli gan derm fel 'lleoliad tymor sefydlog'.

- **Anghysondeb ledled Cymru**: credai cyfranwyr y gallai'r canllawiau adlewyrchu'n well yr amgylchiadau amrywiol rhwng un awdurdod a'r llall, gan fod rhai awdurdodau heb uned cyfeirio disgyblion tra bod eraill heb ysgolion arbennig. Yn ardaloedd yr awdurdodau hynny heb ysgol arbennig, gallai'r canllawiau gydnabod bod y cyfleoedd i ailintegreiddio disgyblion yn ôl i addysg yn fwy cyfyngedig.
- **Disgwyliadau ysgolion prif ffrwd**: y farn oedd, er bod y canllawiau'n galluogi darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol i deilwra'r cwricwlwm i anghenion y dysgwr, fod disgwyliadau ysgolion yn eu cyfyngu rhag cyflawni hyn. Roedd rhai darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, lle mae'r disgybl yn dal i gael ei gofrestru mewn ysgol brif ffrwd, yn tynnu sylw at anawsterau cyflwyno cwricwlwm sydd wedi'i anelu at gyflawni anghenion a diddordebau'r dysgwr unigol ochr yn ochr â chyflawni disgwyliadau ysgolion prif ffrwd o ran cymwysterau ar ddiwedd blwyddyn 11. Roedd un cyfrannwr, er enghraifft, yn nodi bod ysgolion prif ffrwd yn disgwyl iddynt gyflawni cymwysterau lefel 2 ar draws yr holl gwricwlwm i ddysgwyr ar ddiwedd blwyddyn 11 (gan fod hyn yn cefnogi eu perfformiad fel ysgol), er bod cymhwyster lefel 1 mewn amrediad culach o bynciau yn fwy addas i anghenion y disgybl. O gymharu, lle mae dysgwyr wedi cael eu dadgofrestru o ysgolion prif ffrwd, does dim gofyniad ar y darparwr addysg heblaw yn yr ysgol i ddarparu'r cwricwlwm llawn.
- **Y diffyg canolbwyntio ar sgiliau sy'n ofynnol gan gyflogwyr**: er nad ydynt yn gwrthwynebu'r egwyddorion a nodir yn y cwricwlwm newydd, roedd cyfranwyr yn awgrymu bod angen i'r canllawiau roi mwy o amlygrwydd i gefnogi dysgwyr addysg heblaw yn yr ysgol (yn enwedig ôl-14) gyda sgiliau a chymwyseddau mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi.

Gwnaed y ddadl hon gan ddarparwyr sy'n cyflwyno darpariaeth alwedigaethol.

**Cwestiwn 3**

*I ba raddau mae'r canllawiau hyn yn cefnogi ac yn helpu'r broses o drefnu, cynllunio a darparu cwricwlwm ac asesu ar gyfer dysgwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau eraill sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol?*

3.10 Roedd cyfranwyr yn **croesawu'r pwyslais ar asesu lefel dysgwyr unigol** a'r cynnydd maent wedi ei wneud o safbwynt cwricwlwm a oedd wedi cael ei deilwra i'w hunigolion. Roedd cyfranwyr yn cydnabod bod ar y canllawiau ynghylch **asesu angen eu datblygu ymhellach** a bod hyn yn cael ei gyflawni gan Lywodraeth Cymru. Byddai unedau cyfeirio disgyblion yn enwedig yn croesawu eglurder pellach ynghylch y prif gamau cynnydd sy'n berthnasol iddynt, yn enwedig o ystyried y cyd-destun mae'r canllawiau wedi eu gosod ynddo, lle caiff addysg heblaw yn yr ysgol ei ddiffino fel ymyrraeth tymor byr, hynny yw, y bydd yn anodd i unrhyw ymyrraeth tymor byr gynhyrchu cymwysterau i ddysgwyr. Awgrymwyd y gallai'r canllawiau egluro a thrafod yn well beth yw hanfod cynnydd i ddisgyblion AHY, e.e. a yw ynghylch dychwelyd at addysg brif ffrwd neu ganlyniadau llai diriaethol megis dysgwr yn meithrin mwy o ddiddordeb mewn addysg.

3.11 Nodwyd meysydd i'w hystyried ymhellach fel:

- Goblygiadau o safbwynt **arolygiadau Estyn** ac a oedd y canlyniadau'n cynnig 'gwarchodaeth' i ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol rhag arolygiadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm llawn, sef sut fyddai Estyn yn dehongli'r canllawiau ynghylch cwricwlwm yn cael ei deilwra i'r dysgwr unigol. Roedd un cyfrannwr yn gofyn a fyddai Estyn yn dal i ystyried sgiliau llythrennedd, rhifedd (a digidol) pob dysgwr mewn addysg heblaw yn yr ysgol.

- Roedd cyfranwyr gwasanaethau ieuenctid yn nodi bod y canllawiau fel petaent yn **canolbwyntio'n gryf ar sefydliadau unedau cyfeirio disgyblion**, a oedd yn fwy tebyg i ysgol na darpariaethau eraill AHY. Byddai'r sector hwn yn croesawu cymorth pellach i weithredu agweddau o'r cwricwlwm sy'n peri anawsterau iddo ar hyn o bryd, ee gwyddoniaeth a'r Gymraeg.
- Roedd canfyddiad gan ddarparwyr AHY fod asesu sylfaenol a ddarperir gan ysgolion prif ffrwd yn anghywir yn aml, a'r farn oedd fod diffyg rhyngweithio rhwng meini prawf asesiadau prif ffrwd a darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

**Cwestiwn 4**

*Pa agweddau ar y canllawiau hyn sy'n arbennig o ddefnyddiol yn eich barn chi?*

3.12 Roedd cyfranwyr y gweithdai yn gytûn mai elfen fwyaf defnyddiol y canllawiau'r yw'r **pedair egwyddor allweddol** ynghylch meithrin lles pob dysgwr, cydweithio systematig, mynediad at gwricwlwm cynhwysol, a chefnogaeth i ailintegreiddio dysgwyr. Teimlai'r mwyafrif o gyfranwyr fod y rhain yn llygad eu lle ac yn briodol yn eu pwyslais a'u bwriad.

3.13 Roedd cyfranwyr yn nodi bod '**meithrin lles**' wedi cael ei osod yn gywir fel yr egwyddor allweddol gyntaf, gan fod hyn yn adlewyrchu diben cyffredinol darpariaeth AHY yn yr ystyr bod dysgwyr yn fwy 'agored' i ddysgu unwaith mae problemau lles wedi eu datrys. Roedd rhywfaint o alw fodd bynnag am i'r egwyddor 'meithrin lles' hwn gael ei gryfhau ymhellach, ar y sail nad yw ond yn cyfrif am fymryn dros ddwy linell o'r canllawiau ar hyn o bryd. Roedd cyfranwyr yn gofyn am ychwanegu manylion pellach at yr egwyddor hon fel ei bod yn derbyn yr un amlygrwydd â'r tair egwyddor arall, megis cydnabod pwysigrwydd arferion a seilir ar drawma wrth fynd ati i gefnogi dysgwyr.

3.14 Roedd cyfranwyr yn fodlon hefyd gyda'r egwyddor allweddol '**mynediad at gwricwlwm cynhwysol**'. Mae'r agweddau allweddol o'r egwyddor hon sy'n ddefnyddiol ym marn cyfranwyr yn ymwneud â'r cwricwlwm wedi ei drefnu i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol ac y byddai cynnydd dysgwyr yn cael ei asesu ar sail eu safle cychwynnol unigol.

3.15 Roedd **agweddau eraill y canllawiau** y cyfeiriwyd atynt gan gyfranwyr fel rhai defnyddiol yn cynnwys:

- Y defnydd o iaith megis 'lle bo'n briodol' i ganiatáu i ddarpariaeth gael ei theilwra i anghenion pob dysgwr.
- Y pwyslais ar y dysgwr unigol.
- Eu defnydd cyffredinol o iaith sy'n golygu eu bod yn addas ar gyfer gwahanol fathau o ddarparwyr a sefydliadau addysg heblaw yn yr ysgol.
- Cyfeiriad at weithio mewn partneriaeth gyda darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gan fod y partneriaid hyn yn cael eu hystyried fel rhai hanfodol bwysig mewn sefyllfaoedd AHY.

**Cwestiwn 5**

*A oes agweddau ar y canllawiau hyn y gellid eu gwella yn eich barn chi?*

3.16 Roedd cyfranwyr y gweithdai yn cynnig amryw o awgrymiadau ar gyfer gwella'r canllawiau. Caiff y materion hyn eu hystyried isod, ac mewn rhai achosion maent yn ailadrodd pwyntiau a godwyd eisoes yn y bennod hon:

- **Dylid adolygu'r diffiniad a fabwysiadwyd ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol** fel ei fod yn adlewyrchu'n well arferion gwirioneddol yn hytrach nag arferion a fwriadwyd. Yn benodol, roedd gan gyfranwyr amheuon ynghylch yr ail baragraff sy'n nodi 'beth yw addysg heblaw yn yr ysgol', gydag un cyfrannwr yn gwneud y sylw 'y paragraff cyntaf ar ddiffinio AHY ydym ni.

Nid ni yw'r ail baragraff'. Roedd cyfranwyr yn dadlau dros gael gwared ar y term 'tymor byr' o fewn y diffiniad.

- Mae angen i'r canllawiau adlewyrchu'r ffaith **nad yw ailintegreiddo dysgwyr addysg heblaw yn yr ysgol yn ôl i addysg yn digwydd bob amser**, gan nad yw hyn er budd y disgyblion. Gellid gwella'r canllawiau trwy gydnabod gwahaniaethau mewn dulliau sydd ar waith, yn enwedig ar draws Cyfnod Allweddol 4.
- Gallai'r canllawiau fabwysiadu **diffiniad ehangach o ailintegreiddio**, a allai adlewyrchu'n well **bwysigrwydd cynnydd dysgwyr**. Fel y maent ar hyn o bryd, mae'r canllawiau'n rhoi mwy o bwyslais ar ailintegreiddio'n ôl i addysg brif ffrwd, ond i lawer o ddisgyblion AHY, yr amcan yw eu helpu i gamu ymlaen i addysg bellach a chyflogaeth.
- Teimlad mathau eraill o ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol oedd bod y canllawiau'n **canolbwyntio'n ormodol ar sefydliadau unedau cyfeirio disgyblion** a byddent yn croesawu gwell cydbwysedd drwy'r ddogfen. Awgrymwyd bod perygl y byddai darparwyr eraill yn dehongli'r canllawiau fel pe baent ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion ac nad oeddent yn berthnasol iddynt hwy.
- **Gellid cynnig mwy o fanylder ynghylch cydweithio rhwng darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol ac addysg brif ffrwd**, lle mae'r disgybl yn dal i fod wedi'i gofrestru gyda'r ysgol honno. Er enghraifft, roedd un cyfrannwr yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r canllawiau bennu beth sy'n ofynnol gan ysgolion prif ffrwd (o ran cyfathrebu a monitro) pan osodir disgybl mewn darpariaeth AHY.
- Yn yr un modd, roedd awgrym y gallai'r **gofyn i wasanaethau partner**, megis iechyd a gofal cymdeithasol, troseddu ieuenctid, gwasanaethau ataliol a therapiwtig **fodloni'r amodau a bennir yn y canllawiau fod yn fwy diamwys**. Mae'r drafftio yn gosod dyletswydd ar ddarparwyr AHY i

gydweithio â'r gwasanaethau hyn, ond byddai'n fuddiol i'r gofyniad hwn osod dyletswydd gyfatebol arnynt hwythau hefyd. Nodwyd yn benodol fod gan y sector iechyd, megis CAHMS, rôl neilltuol o bwysig ar draws holl ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a bod angen pwysleisio hyn o fewn y drafftio.

**Cwestiwn 6**

*Pa wybodaeth ychwanegol y dylid ei chynnwys yn y canllawiau hyn ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol?*

3.17 Roedd cyfranwyr y gweithdai yn awgrymu y gellid cynnwys yr wybodaeth ychwanegol ganlynol yn y canllawiau ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol:

- Roedd rhai cyfranwyr yn dadlau y **dylai'r canllawiau fod yn berthnasol i unrhyw ddarpariaeth oddi ar safle'r ysgol a drefnir yn uniongyrchol gan ysgolion**. Lle bo ysgolion yn trefnu darpariaeth i'w disgyblion sydd i bob pwrpas yr un fath â'r hyn a drefnir gan awdurdod lleol fel darpariaeth AHY, yna byddai'n ddefnyddiol i'r canllawiau fod yn berthnasol i'r ddarpariaeth hon.
- Gallai'r canllawiau adlewyrchu'n well y ffaith fod sefydliadau addysg heblaw yn yr ysgol **yn cynnig profiadau y byddai llawer o ddysgwyr heb fod wedi gallu eu cael fel arall** yn yr ysgol.
- Gallai'r canllawiau bennu beth sy'n ofynnol o safbwynt cydweithio systematig i ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol a rhanddeiliaid a gwasanaethau partneriaid allweddol eraill. Gallai'r canllawiau ddatgan beth fyddai unrhyw ofynion isafswm, e.e. penodi person unswydd o fewn pob sefydliad gyda chyfrifoldeb am gydweithio, er mwyn gwella cysondeb mewn dulliau ledled Cymru.
- Gellid adolygu'r canllawiau er mwyn sicrhau bod y **term 'ailintegreiddio' yn cael ei ddehongli i gynnwys 'camu**

**ymlaen'**, yng ngoleuni'r ffaith fod llawer o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 nad ydynt yn gweithio tuag at gael eu hailintegreiddio yn ôl i addysg brif ffrwd.

- Gallai fod yn ddefnyddiol i'r canllawiau archwilio sut y gellir mesur ac asesu cynnydd tuag at gwydnwch a lles. Mae hwn yn fater neilltuol o heriol ac roedd darparwyr AHY yn awyddus i archwilio sut y gallai eu darpariaeth ddangos effeithiau cadarnhaol yn well ar y meysydd hyn o brofiadau a dysgu.

**Cwestiwn 7**

*Pa effeithiau fydd y canllawiau hyn yn eu cael ar y Gymraeg?*

3.18 Dangosodd y gweithdai **nad oedd disgwyl i'r canllawiau gael fawr ddim effaith, boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol, ar y Gymraeg**. Roedd cyfranwyr yn dadlau bod cyflwyno canllawiau addysg heblaw yn yr ysgol yn annhebygol iawn o newid y sefyllfa bresennol o safbwynt y galw na'r cyflenwad o ddarpariaeth Gymraeg ar draws y sector.

3.19 Roedd y pwyntiau allweddol a godwyd gan gyfranwyr yn cynnwys:

- Mae'r galw am ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg o addysg heblaw yn yr ysgol yn gyffredinol isel, hyd yn oed mewn ardaloedd sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg ac yn 'brin iawn' mewn ardaloedd sydd â chyfrannau isel o siaradwyr Cymraeg. Gwnaed y sylw gan gyfranwyr o ardaloedd sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg fod y mwyafrif o ddisgyblion AHY yn ddi-Gymraeg. Nid oedd yn anghyffredin clywed darparwyr yn gwneud y sylw 'hyd yma does neb wedi bod eisiau darpariaeth yn y Gymraeg'.
- Er bod galw yn amrywio yn ôl proffil ieithyddol yr ardal a wasanaethir, credai cyfranwyr o bob rhan o Gymru fod siaradwyr Cymraeg yn cael eu tan-gynrychioli'n gyffredinol mewn addysg heblaw yn yr ysgol. Cynigiwyd amryw o resymau dros hyn gan gynnwys:

  - ei bod yn well gan ddysgwyr gymryd rhan mewn darpariaeth AHY yn y Saesneg, gan iddynt ei chael yn anodd mewn addysg Gymraeg neu ddwyieithog
  - nad oedd ar ddysgwyr eisiau dilyn darpariaeth wahanol nac ar wahân i'w cyfoedion o fewn addysg heblaw yn yr ysgol
  - darparwyr AHY heb yr adnoddau na'r sgiliau i gyflwyno darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, felly mae cynnig parhad ieithyddol yn anodd. Er gwaethaf hyn, adroddwyd bod darparwyr AHY yn gwneud defnydd achlysurol o'r Gymraeg ar draws y ddarpariaeth
  - tueddiad i ysgolion cyfrwng Cymraeg ymdrin â phroblemau'n fewnol yn hytrach na chyfeirio disgyblion at addysg heblaw yn yr ysgol (o bosibl oherwydd diffyg darpariaeth AHY cyfrwng Cymraeg ar gael iddynt yn lleol)
  - lle bo darparaeth AHY cyfrwng Cymraeg wedi bod yn ofynnol, roedd darparwyr yn sôn am drefniadau yn cael eu gwneud yn unswydd ar gyfer disgyblion unigol lle na allai uned cyfeirio disgyblion neu ysgol arbennig ddiwallu eu hanghenon, e.e. ail-leolwyd athro Cymraeg ei iaith i ddarparu cymorth tiwtora i ddisgybl. Yn yr achos hwn, roedd y darparwr yn nodi mai'r disgybl oedd y cyntaf mewn tair blynedd i fod angen cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg.
  - mae'n brin iawn i ddysgwyr addysg heblaw yn yr ysgol ennill cymwysterau ffurfiol, megis TGAU, trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Roedd cyfranwyr yn dadlau y gallai'r canllawiau o bosibl roi mwy o amlygrwydd i faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, gan y cyfeirir atynt ar hyn o bryd ar ddiwedd adrannau perthnasol. Awgrymwyd hefyd y byddai mwy o eglurder yn cael ei groesawu er mwyn diffinio'r disgwyliad yn well i ddarparwyr, gyda chyfeiriad ychwanegol yn cael ei wneud at ddisgwyliad i barhad a chynnydd ieithyddol adlewyrchu 'angen a chyd-

destun lleol'. Roedd barn na fyddai fel arall yn 'ddim ond ffon hawdd i Estyn ein curo ni â hi'.

**Cwestiwn 8**

*Sylwadau eraill*

3.20 Roedd y materion allweddol eraill a godwyd gan gyfranwyr y gweithdai yn cynnwys:

- Byddai'n fuddiol i'r canllawiau roi enghreifftiau o beth yn hollol yw addysg heblaw yn yr ysgol er mwyn herio'r canfyddiad ei fod wedi'i gyfyngu i ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (SEBD). Roedd cyfranwyr yn pwysleisio bod y cynnydd diweddar mewn atgyfeiriadau at addysg heblaw yn yr ysgol i'w briodoli i broblemau iechyd meddwl, gan deimlo y gellid adlewyrchu hyn yn well yn y canllawiau.
- Byddai'n fuddiol hefyd i'r canllawiau fod yn berthnasol i bob darpariaeth nas darperir ar dir yr ysgol, ac nid dim ond darpariaeth AHY a gomisiynir gan awdurdodau lleol.
- Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r canllawiau annog awdurdodau lleol i gydweithio wrth gomisiynu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gan y byddai hyn yn helpu cyflawni arbedion maint ac ehangu'r amrywiaeth o ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr, yn enwedig mewn ardaloedd awdurdodau lleol sydd â nifer llai o ddysgwyr AHY.
- Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r canllawiau herio'r isafswm darpariaeth presennol o diwtora unigol y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei ddarparu i ddisgyblion na all fynychu'r ysgol am resymau meddygol neu resymau eraill. Ar hyn o bryd, y gofyniad i awdurdodau lleol yw pum awr yr wythnos. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol wedi canfod eu bod wedi gallu darparu mwy na hyn yn ystod y pandemig COVID-19 pan oedd darpariaeth rithwir ar gael, trwy Google Classrooms er

enghraifft, a byddai'n niweidiol syrthio'n ôl i'r isafswm oriau gofynnol ar ôl COVID-19.